**YGG Parc y Tywyn :**

# Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

***Ein gweledigaeth yw y bydd Parc y Tywyn yn darparu cyfleoedd i bawb i gyrraedd eu llawn potential mewn amgylchedd ysbrydoledig, gofalgar a chynhwysol.***

| | Enw | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Matthew Davies | MDavies | 1/06/25 |
| Prifathrawes | Angharad Williams | AWilliams | 16.07.25 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwirio | Mai 2026 |

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth wraidd cynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, yn ogystal ag addysgu am hawliau plant, rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob un o'n perthnasoedd.

Mae'n rhaid i bolisi ar gyfer plant ag ADY gynnwys staff yr ysgol gyfan ac adlewyrchu egwyddorion YGG Parc y Tywyn.

## Nod Polisi ADY Ysgol Parc y Tywyn

- I adnabod disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol mor gyflym ag sy'n bosib.
- I ddarparu cefnogaeth addas a phridol cyn gynted â phosib unwaith mae'r anghenion wedi cael eu hadnabod.
- I fonitro'r gefnogaeth a ddarparwyd a'i addasu pan fod angen, gan gynnwys ymgysylltu ag asiantaethau allanol pan fod angen.
- I gynnig addysg llawn, cynhwysfawr a chytbwys i ddisgyblion sydd ag ADY er mwyn eu galluogi i gyflawni gofynion y cwricwlwm gorau gallant gyda'r nod i bob disgybl gyrraedd eu llawn potensial.
- I hyrwyddo sefydliad pentyn canolog o fewn yr ysgol, bydd y CADY yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth, Athrawon a Chynorthwywyr dysgu.
- I hyrwyddo perthynas bositif gyda rhieni/gofalwyr plant sydd ag ADY ac i weithio mewn partneriaeth gyda nhw drwy gynnal cyfarfodydd plentyn canolog i ddatblygu Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn dilyn y cyfarfodydd.
- Bydd CDU yn cael ei greu i bob disgybl sydd ag ADY.
- I geisio cyngor a gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol pan fo'n bridool, ac i weithredu'n effeithiol ar y cyngor a roddwyd.
- I gydnabod pwysigrwydd adnabod anghenion yn gynnar yn seiliedig ar systemau cadarn a chyfannol o asesu. Bydd asesu a monitro parhaus wrth wraidd yr holl gyfleoedd dysgu drwy asesiadau athrawon.

## Systemau Ysgol

Y Cyd-gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) sydd yn gyfrifol am drefnu a gweithredu'r Polisi ADY yn Ysgol Parc y Tywyn. Byddant yn cydlynu'r darpariaeth addysgiadol i bob disgybl sydd ag ADY, gan weithio mewn partneriaeth gyda:

- Y Pennaeth
- Athrawon Dosbarth
- Cynorthwywyr Dysgu
- Asiantaethau Allanol, e.e. seicolegydd addysg, athrawon arbenigol sydd yn ymweld a'r ysgol, therapyddion galwedigaethol ayyb..
- Rhieni a gofalwyr disgyblion sydd ag ADY neu'r posibilrwydd o ADY

Mae'r CADY yn aelod o'r UDRh ac yn athro dosbarth.

Mae cyfarfodydd rhwng y CADY, Pennaeth, athrawon a chynorthwywyr yn digwydd yn gyson i drafod cynnydd, mentrau newydd, ac effaith ymyraethau. Yn dilyn trafodaethau gyda'r athrawon dosbarth, maent yn paratoi Proffil Un Tudalen+ a CDU i bob disgybl sydd ag ADY. Mae pob CDU yn

cynnwys manylion am y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDY) sy'n cael ei gynnig i'r disgybl ac mae Proffilau Un Tudalen+ yn amlinellu gwybodaeth am ddeilliannau'r disgybl, y ddarpariaeth ddysgu cyffredinol (DDC) a darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDY) a gynigir, ynghyd â rol yr holl randdeiliaid er mwyn i'r disgybl medru cyflawni'r deilliannau. Mae rhieni/gofalwyr yn derbyn copi o'r CDU a'r proffil a'u llofnodi i ddangos eu bod nhw'n cytuno gyda'r cynnwys. Mae'r Proffiliau Un Tudalen+ yn cael eu cadw yn y dosbarthiadau ac yn cael eu monitro yn rheolaidd.

Mae'r CADY a'r Cydlynydd Ymyraethau yn gyfrifol am fonitro ymyraethau grwp, trefnu hyfforddiant athrawon a chynorthwywyr, tracio cynnydd disgyblion ar y gofrestr ADY (gyda'r athro dosbarth) a modelu arfer dda. Maent yn trefnu cyfarfododydd cynnydd gydag athrawon dosbarth yn dymhorol i drafod cynnydd a phennu targedau a chamau nesaf.

Mae'r cwricwlwm wedi'i gyflwyno i bob disgybl ar y gofrestr ADY wedi'i wahaniaethu, yn ddibynnol ar eu anghenion.

Mae effeithiolrwydd darpariaeth ADY yr ysgol yn cael ei werthuso gan y Pennaeth, CADY a chynrychiolydd o'r Llywodraethwyr sydd a chyfrifoldeb am ADY, o dan y meini prawf llwyddiant canlynol-

- Nifer o ddisgyblion sydd angen sylw neu cefnogaeth
- Anghenion disgyblion yn unol a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru, yn seiliedig ar asesiadau ysgol ac asiantaethau allanol, megis y Seicolegydd Addysg
- Yr amser a roddwyd i gyflawni anghenion a/neu'r cynnydd gan ddisgyblion
- Gofynion staffio – rhwymedigaethau ariannol/defnydd mwyaf effeithiol o gronfeydd cyhoeddus

Os bydd cwyn yn codi wrth riant/gofalwr am unrhyw agwedd o CDU disgybl, bydd gofyn am gyfarfod gyda'r Pennaeth yn gyntaf i drafod y mater. Bydd pob cwyn yn cael eu ymwchilio'n drwyadl mewn partneriaeth gyda'r CADY a'r Pennaeth. Petai angen sylw pellach ar y mater, bydd gofyn i rieni drafod gyda chadeirydd y Llywodraethwyr/Llywodraethwr ADY.

**<u>Disgyblion yn ymuno gyda'r ysgol gydag ADY a nodwyd</u>**

Os bydd disgybl, sydd wedi'i adnabod gydag ADY, yn ymuno gyda'r ysgol, bydd yr holl wybodaeth perthnasol yn cael eu casglu o'r personau sy'n gyfrifol ar hyn o bryd neu eisoes wedi bod yn gyfrifol am y disgybl. Bydd cyfarfod Plentyn Canolog yn cael ei gynnal gyda'r holl bobl perthnasol i ystyried anghenion y disgybl a sut bydd yr ysgol yn sicrhau addasiadau rhesymol er mwyn cwrdda'r anghenion yma. Bydd gwahoddiad i rieni/gofalwyr y disgybl i ddod I'r ysgol i gwrdda'r CADY, athro dosbarth a'r Pennaeth, os bod angen.

Bydd yr ysgol yn penderfynu o fewn 15 diwrnod os bod angen CDU ar y disgybl ac yna paratoi'r CDU o fewn 35 diwrnod o'r penderfyniad. Mae'r amseroedd yma yn unol a chyfrioldebau'r ysgol o dan y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru 2021.

**<u>Pwyntiau trosglwyddo: Dechrau a gadael ysgol</u>**

Cyn dechrau yn y Meithrin, bydd disgyblion sydd wedi'u hadnabod ag ADY gan iechyd neu arbenigwyr addysg, yn cael cyfarfod Trefnu Mynediad Ysgol. Bydd hwn cael ei fynychu gan staff cyn-ysgol, staff ysgol, arbenigwyr allanol sydd ynglwm a'r plentyn a rhieni/gofalwyr. Pwrpas y cyfarfod yw cynllunio sut y bydd pawb yn sicrhau troslglwyddiad llyfn i'r plentyn i'r ysgol. I blant gydag anghenion meddygol, bydd hwn yn cynnwys sut adnabod pa hyfforddiant staff sydd angen i sichrau bod anghenion y plentyn yn cael eu cyrraedd.

Bydd pob disgybl a rhiant/gofalwr yn cael eu gwahodd i sesiynau trosglwyddo er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd gyda'r staff a'r lleoliad ymlaen llaw.

Wrth symud i'r Ysgol Uwchradd, bydd plant ym mlwyddyn 6 gydag ADY yn cael eu trafod gyda CADY yr Ysgol Uwchradd unwaith mae llefydd wedi'u cadarnhau. Mewn cysylltiad gyda'r ysgol uwchradd bydd rhaglen o gefnogaeth yn cael ei drefnu i ddisgyblion ag ADY sydd wedi'i ddisgrifio'n fanwl yn y CDU. Mae gweithio mewn partneriaeth i sicrhau proses pontio llwyddiannus yn dechrau'n gynnar. Bydd cynrychioldydd o'r ysgol uwchradd yn cael ei gwahodd i fynychu cyfarfod Adolygiad Blynddol, fel arfer ym mlwyddyn 5, ac yn nhymor yr haf cyn gadael yr ysgol gynradd ar ddiwedd blwyddyn 6.

Lle mae disgybiol ag ADY yn symud o Ysgol Parc y Tywyn i sefydliadau arbennig a ddyranwyd gan yr Awdurdod Leol, megis Ysgol Arbennig neu Uned ADY, bydd trefniadau'n cael eu gwneud rhwng yr Awdurodod Leol a rhieni/gofalwyr cyn i'r trosglwyddiad ddigwydd.

Mae ein hysgol yn gweithio'n gydweithredol gyda'r Gwasanaethau Iechyd a'r Gwasanaeth Addysg Lles i ddarparu'r gefnogaeth orau i bob disgybl.

**<u>Ein ymrwymiad i rieni a gofalwyr</u>**

Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan annatod yn natblygiad eu plentyn/plant. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn hapus gyda'r trefniadau a wneir i roi sylw arbennig i gwrdd ag angehnion eu plentyn/plant.

Cynhelir cyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr cyn cynnal unrhyw asesiadau ffurfiol. Mae rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu o leoliad eu plentyn ar hyd camau'r broses wrth iddo fynd yn ei blaen.

Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd allweddol lle mae anghenion a chefnogaeth eu plentyn yn cael eu trafod, gan gynnwys cyfarfodydd yn delio gyda throsglwyddo eu plentyn i mewn neu allan o'r ysgol.

Mae gan yr ysgol bolisi drws-agored.